



## Canolradd (Gogledd)

### Chwarae'r Gêm - Act 3



(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 5.)

Mae S4C yn San Germano i ffilmio'r gêm. Ffred Gravell a Rob Puw sy'n gwneud y **sylwebaeth** (commentary).

Ffred G: Wel, Rob? Gêm hawdd i Gaerddinas heno?

Rob P: Ia. Siŵr o fod, Ffred. Caerddinas ydy'r ffefrynnau.

Ffred G: Ti sy'n mynd i ddisgrifio'r tîm, Rob?

Rob P: Ia. Wel, Medwin Hughes sy yn y gôl. Fo ydy'r un oedd yn y gôl yn erbyn Chelsea pan wnaethon nhw golli 5-0 ond mae o wedi gwella.

Ffred G: Pwy sy'n amddiffyn efo fo?

Rob P: Roberts a Derbyshire sy'n amddiffyn heno a'r ymosodwyr ydy Howells a Griffiths.

Ffred G: Dydy Michael Jones ddim yn chwarae?

Rob P: Nac ydy, yn anffodus.... (Maen nhw'n clywed chwiban) Dyna ni, Ffred, y chwiban! Mae'r gêm wedi dechrau! Drosodd i ti!

Ffred G: Diolch, Rob. Caerddinas sy'n ymosod. Ymosod da gan Howells

sy'n ddeunaw oed heddiw. Dyma chwaraewr fydd yn chwarae yn nhîm Cymru yn fuan. Pasio da i Griffiths a Griffiths sy'n ymosod ...Griffiths sy â'r bêl... Mae'n pasio i Howells ac ...O.....! Mae Howells wedi baglu ac wedi colli'r bêl.

Rob P: San Germano sy â'r bêl . Mae'r bêl yn taro pen Roberts.....ac mae'r bêl allan. Carestia sy'n mynd i daflu'r bêl i mewn.

Ffred G: Carestia ydy'r chwaraewr brynodd fflat ym Miwmaris yr wythnos diwetha?

Rob P: Ia. Mae gynno fo deulu yn Llangoed. Mae'r bêl i mewn a Mastrangelo sy'n rhedeg efo'r bêl. Mae o'n pasio i Carestia. Mae Derbyshire yn tacllo ond Carestia sy â'r bêl! Mae o'n cicio. Mae Medwin Hughes yn neidio ond mae'n gôl i San Germano!!! Mae San Germano yn ennill 1-0.

Ffred G: Wel, lwc?

Rob P: Gobeithio mai lwc oedd y gôl 'na, Ffred. Ond mae'n bwysig mai Caerddinas sy'n sgorio nesa!

#### Geirfa

Amddiffyn – to defend

Ymosodwyr – strikers

Chwiban – a whistle

Baglu – to trip